***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 1 (a gyflwynir gan adrannau 24(3), 29(3)(b) a 30(6)(b))

CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

## RHAN 1

CYNLLUNIO CWRICWLWM

*Cymhwyso*

1 Mae'r Rhan hon yn gymwys at ddibenion adran 24(3) (darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) ysgol gymunedol;

(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.

(2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

*Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo'r ddarpariaeth honno yn cyd-fynd—

(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu

(b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(4) Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd yn cyd-fynd â'r darpariaethau hynny neu (yn ôl y digwydd) y daliadau hynny.

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth gyd-fynd—

(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu

(b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o’r fath, â daliadau’r grefydd neu’r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â’r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo’r ddarpariaeth sy’n ofynnol o dan is-baragraff (2) yn ddarpariaeth sy’n cyd-fynd â’r maes llafur cytunedig.

(4) Yn yr achosion hynny, rhaid i’r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy’n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae rhaid ei bod wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r maes llafur cytunedig.

## RHAN 2

## GWEITHREDU CWRICWLWM

*Cymhwyso*

5 Mae’r Rhan hon yn gymwys i’r addysgu a dysgu y mae rhaid ei sicrhau o dan adrannau 29(3)(b) a 30(6)(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol*

6 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) ysgol gymunedol;

(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i’r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 2(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r maes llafur cytunedig).

*Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol*

7 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i’r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r maes llafur cytunedig), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i’r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy’n cyd-fynd â’r weithred ymddiriedolaeth etc).

(4) Mae’r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i’r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy’n cyd-fynd â’r weithred ymddiriedolaeth etc).

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 4(2) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

## RHAN 3

### DEHONGLI

9 (1) Am ystyr "agreed syllabus" ("*maes llafur cytunedig*"), gweler adran 375A(7) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae i ysgol gymeriad crefyddol os y'i dynodir gan orchymyn sy'n cael ei wneud (neu sy'n cael ei drin fel pe bai'n cael ei wneud) o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) (ac mae cyfeiriadau at ysgol heb gymeriad crefyddol i'w dehongli yn unol â hynny).